# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA


13 Hydref 2011

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynnal ymchwiliad i'r **diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.** Hoffai'r grŵp eich gwahodd i roi tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad fel a ganlyn:

- Asesu effaith bosibl cynigion Comisiwn Ewrop ar gyfer diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru, yn cynnwys goblygiadau'r Polisi ar gyfer polisïau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- Ystyried pa ganlyniadau fyddai fwyaf buddiol i Gymru.
- Gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar yr hyn y dylai eu blaenoriaethu yn ei thrafodaethau ar y broses ddiwygio.
- Gweithredu fel fforwm i randdeiliaid yng Nghymru i ymgysylltu â'r drafodaeth ar ddyfodol y polisi.
- Er mwyn dylanwadu ar y drafodaeth ehangach ar Ddiwygio'r PAC, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio rhannu ei gasgliadau â chyrff seneddol y DU, y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop ynghyd â chyrff Ewropeaidd perthnasol eraill fel Pwyllgor y Rhanbarthau.

Bydd y Grŵp yn ystyried:

- Yr hyn y gallai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ei olygu i Gymru?




Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd / Environment and Sustainability Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8026
E-bost / E-mail : E&S.comm@wales.gov.uk

- Yr hyn ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru wrth gynnal trafodaethau ar Ddiwygio'r PAC er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru?
- Sut y gall Cymru sicrhau bod ei barn yn llywio'r broses drafod?

Yn benodol byddwn yn croesawu pob cyflwyniad ynghylch gwelliannau penodol yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i'r cynigion drafft a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 12 Hydref http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/legal-proposals/index_en.htm Pan fyddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau cychwynnol, bwriadwn dynnu sylw at ddiwygiadau posibl y credwn y dylid eu gwneud er mwyn bachu ar y cyfle i'r Grŵp ddylanwadu ar y cynigion terfynol.

Nid oes angen i gyflwyniadau drafod pob maes a nodir uchod ac mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os gwyddoch am berson neu sefydliad a allai fod â diddordeb yn ymchwiliad y Pwyllgor, dangoswch y llythyr hwn iddynt os gwelwch yn dda.

Byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod Tymor yr Hydref 2011 felly byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi nodi yn eich adroddiad a ydych yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar, os cewch eich gwahodd i wneud hynny.

Yn gyffredinol, gofynnwn am gyflwyniadau ysgrifenedig oherwydd mae'n arfer gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein safle ar y rhyngrwd fel y bydd yn dod yn rhan o gofnod cyhoeddus.  Ond, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth mewn fformat clywedol neu fideo. Gellir darparu cyflwyniadau yn Gymraeg neu Saesneg, er y byddwn yn gofyn i sefydliadau sydd â pholisïau Iaith Gymraeg i ddarparu ymateb dwyieithog, os yn bosibl, yn unol â'u polisïau.

Dylid anfon pob cyflwyniad at y Clerc yn E&S.comm@cymru.gov.uk, neu i'r cyfeiriad uchod, erbyn **dydd Gwener 4 Tachwedd 2011** fan bellaf.

**Datgelu Gwybodaeth**

Fel y nodwyd eisoes, mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC**
**Cadeirydd, Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin**